Medi 2021

Astudiaeth Achos

The Wallich

Gwobr Safon Iechyd Corfforaethol Arian Cymru Iach ar Waith

Amdanom ni

Tri amcan craidd The Wallich, elusen digartrefedd a chysgu allan fwyaf Cymru, yw: cael pobl oddi ar y strydoedd; cadw pobl oddi ar y strydoedd; a chreu cyfleoedd i bobl.

Mae'r elusen yn awyddus i greu Cymru lle mae pobl yn sefyll gyda'i gilydd i gynnig gobaith, cymorth ac atebion er mwyn rhoi terfyn ar ddigartrefedd.

Mae'r Wallich, sy'n rhedeg 70 o brosiectau amrywiol mewn 18 o awdurdodau lleol, yn gweithio gyda mwy na 9,000 o bobl ddigartref ac agored i niwed bob blwyddyn ledled Cymru gyda chymorth gwirfoddolwyr a mwy na 400 o gyflogeion.

Uchafbwyntiau

- Rydym wedi parhau i ddarparu gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb ac ar-lein.
- Mae ardaloedd diogel a chadw pellter wedi'u marcio ar ein safleoedd, rydym wedi cynnal asesiadau risg trylwyr o bob ardal ac mae gweithdrefnau glanhau wedi cael eu rhoi i bob gwasanaeth.
- Rhoddwyd adnoddau gweithio gartref a chynigiwyd oriau gweithio hyblyg i rieni i addysgu eu plant gartref.
- Yn ystod 'Wythnos Gofalwyr', aethpwyd ati i hyrwyddo polisïau a oedd yn helpu unigolion a oedd yn gofalu am aelodau'r teulu ac ymgyrch 'Sut wyt ti?' Iechyd Cyhoeddus Cymru.
- Sicrhawyd bod modd i unigolion a grwpiau ddefnyddio gwasanaethau arbenigwyr llesiant, a darparwyd llyfrgell gynhwysfawr o adnoddau i gefnogi lles meddyliol gan gynnwys cyngor, canllawiau hunangymorth ac adnoddau fel podlediadau a fideos ar ymwybyddiaeth ofalgar.
- Hyrwyddir mentrau i annog ffitrwydd corfforol gan gynnwys heriau cerdded a fideos ymarfer corff.
- Roedd ennill Safon Iechyd Corfforaethol Arian Cymru Iach ar Waith yn golygu bod iechyd a llesiant wedi ymwreiddio eisoes yn y sefydliad a'u bod yn rhan flaenllaw o bopeth a wnawn.
- Mae ein hymateb i'r pandemig wedi gwneud y sefydliad yn fwy gwydn, wrth i ni fynd ati addasu i anghenion ein grŵp cleientiaid a chefnogi llesiant a diogelwch ein gweithlu.

Astudiaeth Achos

Symud y rheng flaen ar-lein

Bu'n rhaid i ni fynd ati'n gyflym i symud ein staff rheng flaen ar-lein, gan sicrhau ein bod yn:

- Cadw pobl yn ddiogel
- Atal COVID-19 rhag lledaenu o fewn cymunedau'r Wallich
- Rhoi sicrwydd meddwl i'n staff a'n cleientiaid
- Parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol

Gweithio o bell

Parhawyd i ddarparu 24 o wasanaethau hanfodol The Wallich yn ystod y cyfyngiadau symud, gan fod angen i lawer o wasanaethau preswyl ddarparu cymorth wyneb yn wyneb. Gweithiodd cyflogeion eraill o gartref, gan addasu er mwyn cefnogi cleientiaid o bell. Anogwyd y defnydd o dechnoleg er mwyn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r staff a defnyddwyr gwasanaethau. Yn ogystal, sicrhawyd bod 345 o breswylwyr a oedd wedi'u heithrio'n ddigidol yn flaenorol yn cael eu cysylltu â'r rhyngrwyd.

Astudiaeth Achos

Atebion cadw pellter cymdeithasol

Mae ardaloedd diogel a chadw pellter wedi'u marcio ar ein safleoedd, rydym wedi cynnal asesiadau risg trylwyr o bob ardal ac mae gweithdrefnau glanhau wedi cael eu rhoi i bob gwasanaeth. Darparwyd cyflenwad o gyfarpar diogelu personol (PPE) gyda'r sefydliad yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i sicrhau cyflenwad digonol.

Gweithio'n hyblyg

Derbyniodd y staff a oedd yn gweithio gartref neu'n gwarchod eu hunain gyflog llawn ac ni chollwyd unrhyw gyflog salwch cytundebol oherwydd diagnosis o COVID-19 neu gyfnodau o hunanynysu.

Darparodd yr elusen adnoddau gweithio gartref er mwyn helpu pobl i addasu i ffordd wahanol o weithio. Cynigiwyd oriau gweithio hyblyg i rieni i addysgu eu plant gartref, a darparwyd adnoddau ar-lein i gydweithwyr, defnyddwyr gwasanaethau a phlant.

Yn ystod 'Wythnos Gofalwyr', aethpwyd ati i hyrwyddo polisïau a oedd yn helpu unigolion a oedd yn gofalu am aelodau'r teulu ac ymgyrch 'Sut wyt ti?' Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Hyrwyddir mentrau i annog ffitrwydd corfforol gan gynnwys heriau cerdded a fideos ymarfer corff

Iechyd a lles meddyliol a chorfforol

Mae gennym lyfrgell gynhwysfawr o adnoddau sy'n cefnogi lles meddyliol gan gynnwys cyngor ar reoli iechyd meddwl unigolion, canllawiau hunangymorth ac adnoddau ar-lein fel podlediadau, fideos ar ymwybyddiaeth ofalgar, adweitheg a sesiynau grŵp byw. Hyrwyddwyd gwefannau fel y Sefydliad Iechyd Meddwl ac anogwyd rhyngweithiadau ystyrlon.

Mae'r Wallich yn annog staff i gymryd rhan mewn mentrau fel y Mis Cerdded Cenedlaethol, her #TRY20 a heriau helfeydd, ac yn daparu fideos o ymarferion corff cryfder a chardio. Mae timau Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflawni her gerdded 10,000 o gamau'r dydd.

Gwersi a ddysgwyd

Roedd ennill Safon Iechyd Corfforaethol Arian Cymru Iach ar Waith yn golygu bod iechyd a llesiant wedi ymwreiddio eisoes yn y sefydliad a'u bod yn rhan flaenllaw o bopeth a wnawn. Bu modd i ni ymateb yn gyflym i heriau'r pandemig drwy addasu'r polisïau a'r arferion a oedd ar waith gennym eisoes. Sicrhaodd hyn ein bod yn gallu darparu systemau cymorth priodol i'r staff mewn modd amserol. Rydym ni fel sefydliad wedi meithrin mwy o wydnwch, gan addasu i anghenion ein grŵp cleientiaid a chefnogi lles a diogelwch ein gweithlu.